

Mathemateg

Byddwn yn gweithredu awr o waith rhifedd yn ddyddiol drwy roi ffocws i strategaethau mathemateg pen, sgiliau ymchwiliol mathemategol a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd.

Hoffem petaech yn sicrhau fod eich plentyn yn cwblhau ei waith/gwaith cartref mewn pensil yn hytrach nag inc.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar y ffurfiau canlynol drwy ddilyn camau ieithyddol.

- Dyddiadur
- Cyfarwyddiadau
- Cerdyn Post
- Taflen Wybodaeth
- Striped Comic
- Adolygiad Llyfr
- Gweithgareddau llafar

Darllen

Byddwn yn datblygu sgiliau darllen drwy weithgareddau ieithyddol amrywiol. Mae hyn yn targedu amryw o sgiliau darllen ac yn gwella eu dealltwriaeth o destun.

Ein bwriad yw meithrin a chynnal diddordeb y plant mewn darllen a hyrwyddo eu datblygiad fel darllenwyr annibynnol.

Gwyddoniaeth

Yn ystod y tymor byddwn yn rhoi ffocws ar:-

- Priodweddau defnyddiau naturiol a rhai sydd wedi cael eu gwneud gan ddyn
- Ailgylchu
- Yr Haul, y Ddaear & Lleudad
- Cylchdroad y Ddaear a'i orbit o amgylch yr Haul
- Y Sêr a'r Planedau

Addysg Gorfforol

Byddwn yn canolbwyntio ar:-

- Athletau
- Gymnasteg
- Cyfeiriannu
- Gemau

Gofynnwn i bob plentyn fod â dillad ac esgidiau addas ar gyfer y gwersi. Bydd pob dosbarth yn cael ei gwersi ar **Ddydd Iau**.

Gwaith Cartref

Bydd yn cael ei osod ar ddydd Gwener a dylid ei ddychwelyd erbyn y dydd Mercher canlynol.

Bydd llyfrau i'w darllen gartref yn cael eu gyrru adref yn wythnosol ar ddydd Gwener.

Hoffem petaech yn arwyddo'r cofnod darllen yn rheolaidd.

Môn Mam Cymru

Gwybodaeth i Rieni

Blynnyddoedd 3 & 4



Daeryddiaeth

Arfordir Môn a'i bwysigrwydd

Hanes

Hanes y Celtiaid ar Ynys Môn

Addysg Grefyddol

Pwysigrwydd symbolau mewn Crefydd

Cerddoriaeth

Sut mae cerddoriaeth ac offerynnau Cymreig wedi newid a datblygu dros amser

Celf, Dylunio a Thechnoleg

Gwaith Celf Celtaidd

Gwaith Celf & Dylunio gan ddefnyddio chwedlau fel sbardun

Llwy Garu Branwen

Coginio

Technoleg Gwybodaeth

Defnyddio amryw o raglenni er mwyn diwallu gofynion y Cwricwlwm.

Sut allwch chi helpu eich plentyn?

Darllen a deall ystod o ffynonellau gwahanol a diddorol, e.e. llyfrau amrywiol, arwyddion ffordd, papurau newydd, cylchgronau a gwefannau addas.

Ymarfer tablau llusoi, gweithio ar strategaethau adio a tynnu yn y pen, trin arian mewn bywyd bob dydd ac atgyfnerthu gwybodaeth o amser drwy gyfeirio at gloiciau digidol ac analog yn y byd o'n cwmpas.

Ymweliadau

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddosbarthu yn ystod y tymor.